# Stondinau Masnsch - Gwyl Serameg Rhyngwladol 2023
# $30^{ain}$ Mehefin - $2^{ail}$ Gorffennaf 2023







Mae'r stondinau masnach erbyn hyn yn rhan bwysig a gwerthfawr o'r Ŵyl Serameg. Maent yn cynnig cyfle unigryw i ymwelwyr i brynu deunyddiau ac offer yn uniongyrchol oddi wrth gyflenwyr ac mae nhw yn eu tro yn cael cyfle i gyflwyno ac arddangos cynnyrch a gwasanaethau newydd. 'Rydym hefyd yn croesawu stondinau masnach o fudiadau serameg megis orielau a chyrsiau sy'n dysgu serameg a dylunio 3-D. 'Rydym yn anelu at ddarparu amrywiaeth o stondinau masnach i ddiddori'n hymwelwyr yn cynnwys: cyflenwadau a deunyddiau serameg; gwasanaethau a gwybodaeth; cyhoeddiadau a llyfrau serameg, a llawer mwy! Mae'r ŵyl yn denu dros 1000 o ymwelwyr bob blwyddyn.

**I Archebu Stondin:**

1. Darllenwch yr holl fanylion ynglyn â stondinau masnach yn yr ŵyl 2023 os gwelwch yn dda.
2. Cwblhewch y ffurflen archebu atodedig, neu lawrlwythwch ffurflen o'n gwefan: http://www.internationalceramicsfestival.org/
3. Rhaid archebu Stondin Masnach erbyn **$1^{af}$ Ebrill 2023**
4. Cwblhewch asesiad risg a'i ddychwelyd erbyn **$14^{eg}$ Ebrill 2023**
5. Anfonwch Dystysgrif Atebolrwydd Cyhoeddus am y cyfnod $30^{ain}$ Mehefin - $2^{ail}$ Gorffennaf 2023 erbyn **$14^{eg}$ Ebrill 2023**

## GWYBODAETH STONDINAU MASNACH AC HYSBYSEBU 2023

*Darllenwch yn ofalus os gwelwch yn dda er mwyn sicrhau nad ydych yn methu unrhyw wybodaeth bwysig.*

**Lleoliad y Stondinau Masnach:** Lleolir y stondinau masnach yn y babell ar y glaswellt y tu ôl i'r Ganolfan. Darperir llawr pren â charped ar y llawr a thrydan.
**Oriau Agor y Stondinau Masnach:** Bydd y stondinau ar agor 9am-6pm. Dynodwch os ydych am aros ar agor yn hwyrach ac efallai y clustnodir rhan o'r babell ar gyfer stondinau sydd am aros ar agor tan 8pm os oes angen.
**Maint y Stondinau Masnach:** Noder y bydd rhaid i chi gadw at y maint a archebwyd gennych yn wreiddiol.
*Os 'rydych yn meddwl y bydd angen rhagor o le arnoch, cysylltwch â ni.*

Maint Hanner Stondin: 2m o ddyfnder x 1.5m ar hyd y ffrynt
Maint Stondin Lawn: 2m o ddyfnder x 3m ar hyd y ffrynt
Stondin Ddwbl: 2m o ddyfnder x 4.5m ar hyd y ffrynt

**Tocynnau Gŵyl y Stondinau Masnach:** Darperir 2 docyn (band arddwrn) ar gyfer pob Stondin Fasnach a fydd yn caniatau mynediad llawn i'r arddangosiadau, darlithoedd etc. Bydd dalwyr tocynnau yn derbyn bandiau arddwrn na ellir eu troslgwyddo pan maent yn cyrraedd felly gwnewch yn siwr eich bod wedi archebu digon o docynnau ar gyfer aelodau staff sydd am fynychu'r gweithgareddau. **Mae nifer cyfyng o docynnau gostyngol ar gael i staff y Stondianu Masnach am £100 yr un**. Ni fydd angen tocynnau ar gyfer safle'r Stondinau Masnach ond bydd eu hangen ar gyfer arddangosiadau, darlithoedd a gweithgareddau eraill.

**Llety:** Mae llety ar gael ar sail y cyntaf i'r felin. Rhaid archebu ymlaen llaw trwy Swyddfa Gynhadledd a Llety Prifysgol Aberystwyth Ffôn: 01970 621960; e-bost: conferences@aber.ac.uk
Mae archebu llety ar wahân i archebu eich stondin. **Rhaid i lety ar gyfer 2023 gael ei archebu gan y Stondinwr ac ni ellir ei archebu trwy'r Ŵyl Serameg Ryngwladol.**

**Costau Hysbysebu Gostyngol:**
Rhestrir yr holl stondinau am ddim yn **rhaglen swfenîr yr ŵyl** a roddir i bob person sy'n mynychu'r ŵyl. 'Rydym hefyd yn cynnig y cyfle i hysbysebu yn ein llyfryn swfenîr A4 am bris gostyngol. Rhoddir y llyfryn i bawb sy'n ymweld â'r ŵyl ac fe'i defnyddir hefyd fel cyhoeddusrwydd yn ystod y blynyddoedd yn dilyn gŵyl 2023. Dylid anfon y taliad llawn am hysbysebion i mi, gyda'r copi, erbyn **14eg Ebrill 2023**, sieciau'n daladwy i: *International Ceramic Festival Ltd*.

**Pecynnau Nawdd:**
I drefnu proffil uwch yn ystod y sioe, mae pecynnau nawdd arbenigol ar gael am gost resymol. Mae noddi gweithgareddau penodol yn amrywio o ŵyl i ŵyl. Ymwelwch â'n gwefan http://www.internationalceramicsfestival.org/sponsors am ragor o wybodaeth ynglyn â hyn.

Am ragor o wybodaeth ynglyn â'r ŵyl neu os oes gennych unrhyw gwestiynau mae croeso i chi gysylltu â swyddfa'r ŵyl.

Cat Gardiner
Ebost: administrator@icfwales.co.uk

**Gŵyl Serameg Ryngwladol**
**Canolfan y Celfyddydau**
**Prifysgol Aberystwyth**
**Aberystwyth Ceredigion**
**SY23 3DE**

**Gŵyl Serameg Ryngwladol 2023 - Ffurflen Archebu Stondin Fasnach**

| |
|---|
| Enw'r Cwmni: |
| Cyfeiriad:<br><br><br>Côd post: |
| Ffôn/Ffacs: |
| E-bost: |
| Enw Cyswllt: |
| Enw Cyswllt yn ystod yr Ŵyl: |
| Rhif Ffôn symudol yn ystod yr Ŵyl: |

***Hoffwn archebu'r Stondin Fasnach ganlynol:***

| **STONDINAU** | **NIFER A ARCHEBIR** | **CYFANSWM Y GOST** |
|---|---|---|
| **Hanner Stondin**<br>(2m o ddyfnder x 1.5m ar hyd y ffrynt)<br>@ £290 yn cynnwys 2 docyn am ddim | | |
| **Stondin Lawn**<br>(2m o ddyfnder x 3m ar hyd y ffrynt)<br>@ £420 yn cynnwys 2 docyn am ddim | | |
| **Stondin Ddwbl**<br>(2m o ddyfnder x 4.5m ar hyd y ffrynt)<br>@ £700 yn cynnwys 2 docyn am ddim | | |

| **BYRDDAU** | **NIFER A ARCHEBIR** | **CYFANSWM Y GOST** |
|---|---|---|
| (tua 1.5m o hyd x 80cm) **£10 yr un** | | |

| ***TRYDAN*** | ***ANGEN?*** *(ampau sydd eu hangen)* | **CYFANSWM Y GOST** |
|---|---|---|
| **£30.00** am bwynt 13 amp | | |
| **£45** am bwynt 32 amp | | |

| **TOCYNNAU YCHWANEGOL** | **NIFER A ARCHEBIR** | **CYFANSWM Y GOST** |
|---|---|---|
| Caniateir 2 docyn i bob stondin @ pris gostyngol o **£100 yr un** | | |
| Tocynnau Penwythnos ychwanegol @ **£140** | | |

| **HYSBYSEBU YN LLYFRYN YR ŴYL**<br>Copi erbyn **14ed Ebrill 2023** | **CYFANSWM Y GOST** |
|---|---|
| Tudalen Lawn @ £225 *(heb ostyngiad £275)* | |
| Hanner Tudalen @ £165.00 *(heb ostyngiad £210)* | |
| Chwarter Tudalen @ £100.00 *(heb ostyngiad £135)* | |

| **CYFANSWM Y GOST** | **CYFANSWM Y GOST** |
|---|---|
| Stondin | |
| Byrddau | |
| Trydan<br><br>(£30.00 am bwynt 13 amp / £45 am bwynt 32amp) | |
| Tocynnau Ychwanegol<br><br>(£100 am y ddau cyntaf, wedyn £140) | |
| Hysbysebu | |
| CYFANSWM | |
| Llai Blaendal (anfonwch siec am £150 yn daladwy i: International Ceramic Festival Ltd | |
| **TALIAD LLAWN erbyn 14ed Ebrill 2023** | |

*Rhowch ddisgrifiad byr os gwelwch yn dda o'r hyn y byddwch yn arddangos/gwerthu ar eich stondin.*

*Nodwch os y byddwch yn arddangos offer trwm.*

*Nodwch yr oriau yr hoffech fod ar agor:*

| | |
|---|---|
| 9am-6pm | |
| 9am-8pm | |

**Tynnwch lun bras isod o'ch stondin fel y bydd yn ymddangos yn yr ŵyl os gwelwch yn dda (.jpeg neu .pdf)**
**Ar gyfer 2023 lleolir y stondinau masnach yn yr un lle â rhai o'r arddangosiadau.**
**Nodwch os NAD YDYCH am gael eich lleoli ger bwys yr arddangosiadau ___________________**

'Rydym yn ceisio lleoli stondinau yn y lle mwyaf addas i chi. I'n helpu yn y cyswllt yma nodwch os gwelwch yn dda os oes 'na fathau eraill o gwmnïau neu stondinau na fyddech am fod ger bwys iddynt (cedwir y wybodaeth hon yn gyfrinachol).

**AMODAU HURIO**

1. Rhaid gosod y Stondinau Masnach i fyny rhwng **11am - 3pm Dydd Gwener 30ain Mehefin.** I osod i fyny y tu allan i'r oriau hyn cysylltwch administrator@icfwales.co.uk os gwelwch yn dda.
2. Rhaid i'r Stondinau Masnach adael y safle erbyn **9am Dydd Llun 3ydd Gorffennaf.**
3. Os ydych angen trydan nodwch amp y pwynt trydan a'r nifer o socedi sydd eu hangen ar y ffurflen archebu atodedig. Ni fydd yn bosibl cyflenwi trydan ar eich cyfer os nad ydych wedi rhoi'r manylion cywir.
4. Rhaid i'r holl offer trydanol sy'n cyrraedd y safle fod mewn cyflwr gweithio diogel a rhaid iddo gael prawf PAT dilys i'w ddefnyddio yn ystod yr ŵyl.
5. Os byddwch yn arddangos nwyddau trymion nodwch hyn ar y ffurflen archebu os gwelwch yn dda a darperir cymorth ar eich cyfer wrth symud eitemau i'r babell ac oddi yno.
6. Caniateir gwerthu darnau serameg o dan rai amgylchiadau (colegau, prifysgolion, grwpiau)
7. Mae'r Ŵyl Serameg Ryngwladol yn cadw'r hawl i ddosbarthu lle i stondinau masnach. Gwneir hyn ar sail y cyntaf i'r felin; rhoddir manylion yr holl stondinau a fydd yn yr Ŵyl ar ein gwefan: www.internationalceramicsfestival.org ar ôl 30ain Ebrill 2023.

'Rwyf wedi darllen a deall yr amodau hurio a hoffwn archebu stondin fel y nodir uchod.

| | |
|---|---|
| Llofnod: | Dyddiad: |

**Asesiad Risg Stondinau Masnsch**
**Gwyl Serameg Rhyngwladol 2023**
**30ain Mehefin - 2ail Gorffennaf 2023**

| GWNAED GAN (ENW) | | | DYDDIAD | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **TASG/GWEITHGAREDD** | **PERYGL POSIB** | **PERSON(AU) MEWN PERYGL** | **LEFEL RISG** | **MESURAU RHEOLI** | **GWEITHREDU PELLACH** |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |